Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Consesiynau Arlwyo Eisteddfod 2023

Mae gan Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd gyfleoedd arlwyo a manwerthu ar gael trwy dendr – dyddiad cau ar gyfer cynigion tendr yw 12:00pm 10 Chwefror 2023. Mae manylion ar gael ar:

https://eisteddfod.cymru/2023-consesiynau-arlwyo

Mae cyngor gan Busnes Cymru am sut i dendro ar gyfer cytundeb ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/cyflwyno-tendr-am-gontract

# CYFLOGAETH: Cyfraith newydd i roi mwy o lais i weithwyr dros eu horiau gwaith

Bydd mesur newydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth y DU, yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, yn rhoi gwarant i bob gweithiwr a chyflogai, gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, o pryd y bydd gofyn iddynt weithio, gydag oriau sy'n gweithio iddyn nhw. I gael gwybod mwy, ewch i:

http://bit.ly/3DIl3Qh

# DIGWYDDIAD: Yr Amser i Arloesi a Mentro – 17 Chwefror 2023

Bydd y digwyddiad yma, i'w gynnal ar 17 Chwefror 2023 (2:00pm-3:00pm), yn gyfle i glywed gan Phil Budden, Uwch Ddarlithydd mewn Technoleg, Arloesedd, Entrepreneuriaeth a Strategaeth (TIES) o'r Massachusetts Institute of Technology (MIT) byd enwog. I ddarganfod mwy, ewch i:

http://bit.ly/3laLSHu

# GWOBRAU: Gwobrau Ffederasiwn Bwyd a Diod 2023

Mae Gwobrau'r Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF) yn cydnabod ac yn gwobrwyo rhagoriaeth ar gyfer arloesi, cystadleugarwch a thalent yn y diwydiant bwyd a diod – gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr, manwerthwyr, lletygarwch a mwy. Mae gwybodaeth am y gwobrau, y categorïau a sut i ymgeisio am ddim ar gael ar:

https://www.fdf.org.uk/wales/fdf/events-and-meetings/fdf-awards/

# YMGYRCH: Dydd Miwsig Cymru – 10 Chwefror 2023

Gall gwrando ar gerddoriaeth tra'n gweithio helpu gweithwyr i ganolbwyntio ar waith, derbyn gwybodaeth ac ysgogi

creadigrwydd. 10 Chwefror 2023 yw Dydd Miwsig Cymru, yn dathlu pob math o fiwsig Cymraeg – dewch o hyd i hoff gân newydd trwy ddilyn @Miwsig neu chwilio #Miwsig. Mae mwy o wybodaeth am Ddydd Miwsig Cymru ar gael ar:

https://www.llyw.cymru/dydd-miwsig-cymru

Mae mwy o gefnogaeth nag erioed o'r blaen i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich busnes, ewch i dudalennau Helo Blod i gael gwybod mwy ar:

https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy

# DIGWYDDIAD: Wythnos Cymru yn Llundain 2023

Bydd Wythnos Cymru yn Llundain yn cael ei chynnal o 19 Chwefror 2023 hyd at 5 Mawrth 2023 i arddangos gweithgareddau a digwyddiadau sy'n dathlu ac yn hyrwyddo popeth sy'n wych am Gymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://walesweek.london/cy/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru